**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 27 Gorffennaf 2018 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | D H Hopkins | C L Philpott |
| P M Black | O G James | S Pritchard |
| J E Burtonshaw | M H Jones | J A Raynor |
| M C Child | P K Jones | C Richards |
| J P Curtice | L R Jones | K M Roberts |
| P Downing | J W Jones | B J Rowlands |
| M Durke | E J King | A H Stevens |
| W Evans | M B Lewis | R C Stewart |
| E W Fitzgerald | R D Lewis | D G Sullivan |
| R Francis-Davies | W G Lewis | W G Thomas |
| D W Helliwell | A S Lewis | M Thomas |
| T J Hennegan | C E Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| C A Holley | P Lloyd | |
| B Hopkins | P M Matthews | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, A M Day, V M Evans, S J Gallagher, L S Gibbard, K M Griffiths, P R Hood-Williams, Y V Jardine, S M Jones, M A Langstone, H M Morris, D Phillips, A Pugh, M Sherwood, P B Smith, R V Smith, M Sykes, G J Tanner, L G Thomas, G D Walker, L V Walton a/ac T M White

---

## 42. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gysylltiad ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 43. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r cyngor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y cyngor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 44. Penodi Rolau Uwch-reolwyr (Cyfarwyddwr Addysg, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Cyllid)

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn cadarnhau penodiad i'r swyddi canlynol:

1) Cyfarwyddwr Addysg;
2) Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;
3) Prif Swyddog Cyllid.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod angen diwygio'r adroddiad gan ei fod yn nodi mai Ben Smith oedd y Prif Swyddog Cyllid a gymeradwyodd yr adroddiad. Roedd Ben Smith wedi datgan cysylltiad yn yr adroddiad a Paul Cridland oedd y Swyddog Cyllid a gymeradwyodd yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y dylid rhoi Rheol 44 Gweithdrefn y Cyngor "Atal Rheolau Gweithdrefn" ar waith er mwyn cael gwared ar y gofyniad i ymgeiswyr roi cyflwyniad ac ymateb i gwestiynau gan mai un ymgeisydd yn unig a oedd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer pob swydd. Awgrymodd hefyd y dylid cael gwared ar y gofyniad am bleidlais gudd a chynnal pleidlais syml drwy godi llaw yn lle hynny.

Amlinellodd y Prif Weithredwr yr adborth o'r broses benodi ar gyfer pob ymgeisydd.

**Penderfynwyd:**

1) Rhoi Rheol 44 Gweithdrefn y Cyngor "Atal Rheolau Gweithdrefn" ar waith er mwyn cael gwared ar y gofyniad ar gyfer y canlynol:

    i) Ymgeiswyr i roi cyflwyniad ac ymateb i gwestiynau;
    ii) Pleidlais gudd. Dylid cynnal pleidlais syml drwy godi llaw yn lle hynny.

2) Penodi Nick Williams yn Gyfarwyddwr Addysg;

3) Penodi Dave Howes yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;

4) Penodi Ben Smith yn Brif Swyddog Cyllid.

**Sylwer:** O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, gwahoddwyd pob ymgeisydd i Siambr y Cyngor a chynigiwyd y swyddi iddynt. Derbyniodd pob ymgeisydd y cynnig.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.11 am

**Cadeirydd**